



Adroddiad 2008 ar Gynllun Cydraddoldeb Rhywedd

Adroddiad i'r Cyngor ar Gydraddoldeb Rhywedd

1. Y Cyd-destun	2
2. Statws Cynllun Gweithredu ac Asesu Effaith Cydraddoldeb Rhywedd.....	2
3. Gweithgareddau Pellach i Ymgorffori/Prif-ffrydio Cydraddoldeb Rhywedd.....	6
4. Monitro Rhywedd.....	7
- Cymaryddion Demograffig.....	7
- Monitro'r Staff	7
- Monitro'r Myfyrwyr	9
5. Casgliadau a Blaenoriaethau	9

1. Y Cyd-destun

- (i) Dyma'r Adroddiad Blynyddol cyntaf i'w gyflwyno i'r Cyngor ar Gydraddoldeb Rhywedd yn sgil mabwysiadu Polisi a Chynllun Gweithredu Prifysgol Aberystwyth (PA) ar Gydraddoldeb Rhywedd yn 2007.
- (ii) Ynddo, fe amlinellir y cynnydd y mae'r Brifysgol wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn flaenorol wrth ymateb i'r Ddyletswydd ynghylch Cydraddoldeb Rhywedd, a'i gweithredu, ers iddi ddod i rym ym mis Ebrill 2007. Mae'n darparu gorolwg, yn arbennig, o ymagwedd y sefydliad, crynodeb o'r camau a gymerwyd, dadansoddiad byr o'r data, ac amlinelliad o'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.
- (iii) Mae'r adroddiad wedi'i lunio gan y Cynghorydd Cydraddoldeb, gan ymgynghori ag amrywiol Swyddogion PA a Chadeirydd/aelodau y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb. Fe'i cyflwynir i'r Cyngor ym mis Tachwedd 2008 a threfnir iddo fod ar gael yn ddwyieithog fel dogfen gyhoeddus drwy'r wefan Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb <http://www.aber.ac.uk/human-resources/cy/equal-opps> ac oddi wrth y Cynghorydd Cydraddoldeb yn yr Adran Adnoddau Dynol.
- (iv) Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Rhywedd yn rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2006, a daeth i rym ar 6 Ebrill 2007. Mae'n gosod dyletswydd statudol ar bob awdurdod cyhoeddus, wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau, i roi'r sylw priodol i Ddyletswydd Gyffredinol, sef:
 - dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon
 - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a menywod.
- (v) Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Rhywedd hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi'r sylw priodol i ddileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon yn erbyn pobl drawsrywiol. Mae hynny'n cynnwys pobl sy'n bwriadu ymgymryd ag ail-aseinio'u rhywedd, wrthi'n gwneud hynny neu wedi gwneud hynny.
- (vi) I gynorthwyo'r broses o gynllunio, darparu, gwerthuso ac adrodd ar weithgareddau i gyflawni'r Ddyletswydd Gyffredinol, ceir hefyd gyfres o Ddyletswyddau Penodol. Gan nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno'r dyletswyddau hynny hyd yn hyn, nid ydynt ar gael yng Nghymru. Er bod hynny'n golygu nad oes gofyniad statudol i PA gyflwyno adroddiad, mae adroddiad wedi'i gyhoeddi o ran arfer da.
- (vii) Yn ogystal â gweithredu ei Chynllun Cydraddoldeb Rhywedd, mae PA hefyd wedi gweithredu Polisi Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb, Cynllun Cydraddoldeb Anabledd a Pholisi Cydraddoldeb Hiliol ynghyd â'u priod Gynlluniau Gweithredu. Mae hi hefyd wedi cyhoeddi datganiad ynghylch Oedran.
- (viii) Gan mai bwriad PA yw datblygu un Cynllun Cydraddoldeb yn unol â strategaeth CCAUC, mae hi wrthi'n ymgynghori ynghylch cynllun o'r fath ac yn ei ddatblygu.

Crynodeb: Dyma'r Adroddiad Blynyddol cyntaf ar Gydraddoldeb Rhywedd. Nid yw Llywodraeth y Cynulliad wedi cyflwyno unrhyw ddyletswydd benodol. Bwriad PA yw datblygu un Cynllun Cydraddoldeb yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

2. Statws y Cynllun, y Cynllun Gweithredu a'r Asesiad o'i Effaith

- (i) Cyhoeddodd PA ei Chynllun Cydraddoldeb Rhywedd a'i Chynllun Gweithredu ym mis Ebrill 2007 ar ôl ymgynghori â'r rhanddeiliaid. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad drwy ofyn i'r staff a'r myfyrwyr gwryw a benyw lenwi holiadur yn ddiennw. Dangosodd hwnnw fod parch mawr i amryw o feysydd gweithgareddau PA o ran

diwallu anghenion sy'n ymwneud â rhywedd, ac yn eu plith yr oedd agweddau ar y Gwasanaethau TG, y Llyfrgell, cyfleusterau'r campws a chyfleusterau'r adrannau. Er hynny, credai rhai aelodau benyw o'r staff fod angen gwella tri maes o ran cydraddoldeb rhywedd, sef y prosesau cyflogi (e.e. recriwtio, prawf a dyrchafu), y cyflogau a gweithio hyblyg. Er i recriwtio, prawf a dyrchafiad gael eu henwi'n enghreifftiau o brosesau cyflogaeth, dylid nodi na chafwyd eu bod yn feysydd y dylid rhoi blaenoriaeth i'w gwella. Cydnabyddir, er hynny, fod gofyn rhoi mecanweithiau monitro ar waith yn achos prosesau dyrchafu.

- (ii) Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Brifysgol wedi dal i ganolbwyntio'i hymdrechion ar sicrhau y caiff cydraddoldeb, gan gynnwys rhywedd ei ystyried, yn y prosesau prif-ffrwd, ac ar wella'r prosesau o gasglu a dadansoddi data.
- (iii) Isod, ceir crynodeb o'r tasgau a gyflawnwyd o dan Gynllun Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Rhywedd dros y flwyddyn ddiwethaf:

Cynllun Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Rhywedd - Mawrth 2007 tan Ebrill 2008

Tasg Rhif	Maes / Tasg Benodol	Camau / Datblygiad	Amserlen	Cwblhawyd ✓ / ✗
1 a	Drafftio'r Cynllun Cydraddoldeb Rhywedd a'r Cynllun Gweithredu	Coladu a gwerthuso'r dystiolaeth o broses ymgynghori yr holiaduron dienw.	Cychwynnwyd Rhagfyr 2006 Cwblhawyd Chwefror 2007	✓
b		Drafftio'r Cynllun Cydraddoldeb Rhywedd newydd i ddiwallu anghenion y broses ymgynghori, arferion da a'r gofynion statudol.	Cychwynnwyd Chwefror 2007 Cwblhawyd Mawrth 2007	✓
c		Drafftio'r Cynllun Gweithredu i ategu'r polisi a helpu i gyflawni amcanion cyraeddadwy, realistig a mesuradwy.	Cychwynnwyd Chwefror 2007 Cwblhawyd Mawrth 2007	✓
d		Lledaenu'r drafft o'r Cynllun a'r Cynllun Gweithredu.	Cychwynnwyd Chwefror 2007 Cwblhawyd Mawrth 2007	✓
2 a	Datblygu a chwblhau Cynllun Cydraddoldeb Rhywedd a Chynllun Gweithredu	Datblygu a chwblhau'r fersiwn terfynol o'r Cynllun a'r Cynllun Gweithredu yng ngoleuni'r ymarfer ymgynghori.	Cychwynnwyd Mawrth 2007 Cwblhawyd Ebrill 2007	✓
3 a	Ymgynghori a Chyfathrebu	Ymgynghori ynghylch datblygu'r Cynllun a'r Cynllun Gweithredu.	Cwblhawyd Mawrth 2007	✓
b		Cyhoeddi copi caled o'r Cynllun a'r Cynllun Gweithredu a rhoi fersiwn dwyieithog ohonynt ar y wefan Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb a'r wefan Cymorth i Fyfyrrwyr.	Cwblhawyd 30 Ebrill 2007	✓
c		Trefnu i'r Cynllun a'r Cynllun Gweithredu fod ar gael mewn fformatau hygyrch yn ôl y gofyn.	Gweithredwyd Ebrill 2007	✓
d		Hyrwyddo'r Cynllun a'r Cynllun Gweithredu drwy'r e-bost wythnosol, yr hyfforddiant gorfodol a roir i'r holl staff, a thrwy gyflwyniadau i'r rheolwyr a'r corff llywodraethu.		✓ (gweler viii isod)

e		Rhoi cyhoeddusrwydd i bwysigrwydd cadw at y Cynllun Gweithredu.		✓
f		Parhau i uwchraddio gwe-dudalennau PA ar Gyfle Cyfartal ac Amrywioldeb bob chwe mis, gan gynnwys cysylltau â'r polisiâu perthnasol, y cynlluniau gweithredu, yr adroddiadau a ffynonellau eraill o wybodaeth.		✓
4 a	Gwella'r Prosesau Cyflogi	Adolygu'r broses recriwtio, dewis, datblygu a dyrchafu o ran unrhyw ogwydd at un rhyw. I gynnwys prosesau recriwtio, prawf a dyrchafu i'r staff.	Gweithredwyd Ebrill 2007 Cwblhawyd Ebrill 2008	Yn parhau
5 a	Rhoi sylw i unrhyw Dan-gynrychiolaeth o Fenywod neu Ddynion mewn Meysydd Penodol yn y Gweithlu	Dal i adolygu, monitro a datblygu mentrau i wella cynrychiolaeth menywod a dynion yn y gweithlu.	Gweithredwyd Mai 2007 Cwblhawyd Ebrill 2008	Yn parhau
6 a	Mentrau Teulu-Gyfeillgar a mentrau Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith	Datblygu polisiâu ac arferion i alluogi gweithwyr i gydbwysu'u gwaith a'u cyfrifoldebau teuluol.	Gweithredwyd Mai 2007 Cwblhawyd Chwefror 2008	✓ Yn parhau (gweler ix-x isod)
7 a	Archwiliad Cyflog Cyfartal	Cynnal Archwiliad cynhwysfawr o Gyflog Cyfartal.	Gweithredu hwn cyn cwblhau'r Fframwaith (erbyn Ebrill 2008, os oes modd)	Bwriedir ei gynnal ar ôl gweithredu'r Cytundeb Fframwaith
8 a	Hyfforddiant	Darparu hyfforddiant ynghylch ymwybyddiaeth o rywedd i'r holl staff drwy weithredu hyfforddiant e-ddysgu gorfodol.	Gweithredwyd Mawrth 2007 Yn parhau	✓ Yn parhau (gweler vi-viii isod)
9 a	Monitro	Casglu data ystadegol am y staff a'r myfyrwyr yn flynyddol.	Gweithredwyd casglu'r data yn Chwefror 2008 ar gyfer adroddiad ym mis Mai 2008	✓ (gweler adran 4 isod)
b		Hwyluso casglu a monitro'r data lle bo modd.		✓ Yn parhau
c		Dal i adolygu'r mecanweithiau monitro ar gyfer Recriwtio, Cadw, Dyrchafu a Datblygu Staff ; Recriwtio, Cadw a Chynnydd Myfyrwyr ; presenoldeb Ymwelwyr .		✓ Yn parhau
10 a	Adrodd yn Flynyddol	Adrodd yn flynyddol ar gynnydd o ran Cydraddoldeb Rhywedd a gweithredu'r Cynllun a'r Cynllun Gweithredu, ac ymgorffori'r adroddiad mewn Adroddiad cyffredinol ar Gydraddoldebau.	Gweithredwyd yn Chwefror 2008 ar gyfer adroddiad ym mis Mai 2008	✓
11 a	Asesu'r Effaith a Phrifffrydio	Cynnwys Rhywedd yn yr Asesiadau o Effaith Cydraddoldeb (AEC) o'r holl bolisiau a gweithdrefnau.	Gweithredwyd Tachwedd 2006 Cwblhawyd	✓ AEC yn parhau

			Hydref 2007 Yr adolygiad mewn cylchred 3-blynedd (Ebrill 2009)	(gweler iv-v isod)
b		Asesu effaith arferion sy'n dirion wrth y teulu ac arferion gweithio hyblyg, polisïau ar aflonyddu rhywiol, cwynion myfyrwyr, gweithdrefnau disgyblu a pholisïau ac arferion cysylltiedig eraill o'r fath.	Gweithredwyd Ebrill 2007 Cwblhawyd Feb 2008	✓
c		Cyhoeddi ffrwyth yr asesiad o'i effaith ac amserlennu adolygiad pellach yn y gylchred 3-blynedd.		Yn parhau
12 a	Rheoli a Llywodraethu	Dal i ymgorffori materion cydraddoldeb rhywedd ar bob lefel ym mhrosesau busnes a phrosesau penderfynu y Brifysgol.	Parhau i weithredu	✓
b		Cynnal sesiynau briffio i sicrhau bod aelodau o'r corff llywodraethu yn ymwybodol o'r Cynllun ac o'u cyfrifoldebau hwy mewn perthynas ag ef.	Briffio'r Cyngor a diweddarau'r wybodaeth yn ôl y gofyn.	✓ (gweler vi-vii isod)

- (iv) Cychwynwyd Proses Sgrinio PA i Asesu Effaith Cydraddoldeb (AEC) ar gyfer yr holl linyddau cydraddoldeb ym mis Rhagfyr 2006 ac mae asesu effaith cydraddoldeb rhywedd yn llinyn ynddo. Yn sgil lledaenu'r broses AEC a rhoi hyfforddiant yn ei chylch, sgriniwyd dros 300 o bolisïau'r Brifysgol gan fwy na 35 o adrannau/isadrannau.
- (v) Cyn llunio Adroddiad Sgrinio ar AEC a nodi'r meysydd risg posibl, mae angen i PA sgrinio rhagor o bolisïau allweddol er mwyn canfod eu heffaith ar staff, myfyrwyr, ymwelwyr ac ymgeiswyr. Cynigir hefyd ehangu'r ymarfer ymhellach ac ymgynghori â'r staff a'r myfyrwyr i ganfod unrhyw bolisi/arfer a allai gael effaith niweidiol neu y mae'n hysbys bod iddo effaith niweidiol. Yn dilyn y broses honno, gwneir asesiad llawn o AEC.
- (vi) Yn 2007 gweithredwyd strategaeth i roi hyfforddiant cynhwysfawr ac ymarferol i fwy na 260 o aelodau o'r staff, gan gynnwys aelodau o'r Cyngor, Tîm yr Uwch-Reolwyr, a Phenaethiaid Adrannau. Rhan o hynny oedd cyflwyno sesiwn yn Gymraeg a rhoi sesiwn o hyfforddiant penodol i'r Adran Adnoddau Dynol.
- (vii) Ym mis Hydref 2007, ac fel arweiniad atodol yn dilyn yr hyfforddiant uchod ynghylch Cydraddoldeb, dosbarthodd yr Uned Herio Cydraddoldeb a Rhwydwaith Cyfle Cyfartal Addysg Uwch gopi o gyhoeddiad o'r enw "Equality and Diversity: Responsibilities and Challenges, A Short Guide for members of Governing Bodies of HEIs", dyddiedig Mawrth 2007, i bob aelod o'r Cyngor.
- (viii) Cafodd rhaglen e-ddysgu orfodol a dwyieithog PA ar amrywioldeb, sy'n cynnwys modiwl hyfforddi ynghylch Cydraddoldeb Rhywedd, ei rhagbrofi ddwywaith yn ystod 2007 ac fe'i rhyddhawyd i bob aelod o'r staff a oedd â chyfrif e-bost gweithredol ym mis Mehefin 2008. Mae'r rhaglen hyfforddi honno'n cynnwys modiwl penodol ynghylch Rhywedd ac yn cysylltu â Chynllun a Chynllun Gweithredu PA ynghylch Cydraddoldeb Rhywedd. Bellach, mae PA yn ysgrifennu at yr holl aelodau o'r staff sydd â chyfrifon e-bost anweithredol i holi am eu gofynion o ran cymorth a dysgu.
- (ix) Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae PA wedi diweddarau llawer o'r polisïau Cyfeillgar â'r Teulu sydd ganddi, e.e.

Polisi Gweithio Hyblyg	Mawrth 2008
Polisi Mabwysiadu	Mai 2008
Absenoldeb Mamolaeth	Ebrill 2007
Ffurflen Cadw mewn Cysylltiad	Mai 2008
Polisi a Gweithdrefn Tadolaeth	Medi 2007
Absenoldeb Rhieni	I fod yn barod erbyn Medi 2008
Absenoldeb Tosturiol	Mawrth 2007

- (x) Mae'r polisiau newydd sydd wedi'u gweithredu'n ddiweddar yn cynnwys Urddas a Pharch (Mai 2008) ac Iechyd a Lles (Mai 2008). Diweddarwyd y polisi ar ddisgyblu Staff Cysylltiedig/Cymorth, hefyd, ym mis Ionawr 2008. Ymhlith y polisiau sy'n disgwyl cael eu cymeradwyo ym mis Medi 2008 mae Absenoldeb Rhieni, Rheoli Absenoldebau, Recriwtio a Dewis, Ymddeol, a Chwythu'r Chwiban.
- (xi) Ystyrir mentrau pellach ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, gan gynnwys Cynllun Beicio i'r Gwaith a Rhaglen Cymorth i Weithwyr.
- (xii) Y bwriad yw i'r Cynllun Cydraddoldeb Rhywedd a'r Cynllun Gweithredu, ynghyd â'r Polisiau ar Hil ac Anabledd, gael eu hymgorffori mewn un Cynllun Cydraddoldeb dros y flwyddyn nesaf ac iddynt hefyd gynnwys llinynnau Oedran, Crefydd/Cred a Gogwydd Rhywiol. Caiff y tasgau sydd heb eu cyflawni eto, ond a restrir yn flaenoriaethau yn adran 5 isod, *Casgliadau a Blaenoriaethau*, eu hymgorffori mewn un ymagwedd at Gynllun Cydraddoldeb.

Crynodeb: Mae PA wedi asesu gweithredu'r tasgau ar Gynllun Gweithredu'r Cynllun Rhywedd. Caiff y tasgau sydd heb eu cyflawni eu dangos ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Mae polisiau wedi'u sgrinio (AEC) a llawer o bolisiau wedi'u sefydlu yn ystod y flwyddyn flaenorol.

3. Gweithgareddau Pellach i Ymgorffori/Prif-ffrydio Cydraddoldeb Rhywedd

- (i) Cyfarfu'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb, sy'n gydbwyllgor o'r Cyngor a'r Senedd, deirgwaith yn ystod y flwyddyn 2007/8. Mae'r Pwyllgor yn dal i gydlynu strategaeth cyfle cyfartal ac amrywioldeb PA, i lunio polisi a monitro'i weithredu, i gynghori ynghylch datblygiadau cyfreithiol ac i hyrwyddo/lledaenu'r arferion gorau.
- (ii) Mae'r Pwyllgor wrthi'n cynllunio un Cynllun Cydraddoldeb ac yn ystyried yr angen i sefydlu Hyrwyddwyr Cydraddoldeb ac Amrywioldeb yn yr adrannau.
- (iii) Ym mis Chwefror 2008, cyflwynodd (Adran Gyllid) PA gynllun Talebau Gofal Plant, sef rhan o ymagwedd y Brifysgol at sicrhau cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd. Dylai hyn helpu i ddenu a chadw gweithwyr drwy arbed costau gofal-plant iddynt.
- (iv) Cynrychiolir PA ar Bwyllgor Llywio Cynllun Mentora Menywod yn y Prifysgolion (WUMS), y pwyllgor sy'n ceisio hyrwyddo a hwyluso datblygiad proffesiynol i fenywod sy'n gweithio ym mhrifysgolion Cymru gyda'i phartneriaeth ryng-brifysgolion (mae 12 o sefydliadau addysg uwch Cymru'n bartneriaid ynddi). Mae dau aelod o'r staff, y naill yn fentor a'r llall yn fentai, yn cymryd rhan yn y cynllun yn PA ar hyn o bryd.
- (v) Mae'r Cynghorydd Cydraddoldeb wedi dosbarthu cyhoeddiad a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas Gemeg Frenhinol *Planning for Success: Good Practice in University Science Departments* <http://www.rsc.org/ScienceAndTechnology/Policy/Documents/Diversity.asp> i holl Adrannau Gwyddoniaeth PA. Nod y

canllaw hwnnw i arferion da yw gwella'r amodau gwaith i ddynion a menywod a thrwy wneud hynny gynyddu cyfraddau cadw menywod sy'n wyddonwyr.

- (vi) Bu'r Dirprwy Is-Ganghellor a Chadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a'r Cynghorydd Cydraddoldeb mewn cynhadledd ar Gyflog Cyfartal gan yr Uned Her Cydraddoldeb/CCAUC yng Nghaerdydd ym mis Gorffennaf 2008.
- (vii) Bydd y Cynghorydd Cydraddoldeb yn mynychu digwyddiadau rhwydweithio yn gyson, e.e. Grŵp Cyswllt Cymru yr Uned Her Cydraddoldeb, Bwrdd Cydraddoldeb a Hyder Ceredigion (Heddlu Dyfed-Powys) a'r rhwydwaith Cydbwysedd Gwaith-Bywyd (Chwarae Teg) yn ogystal â chynadleddau, e.e. y Gynhadledd Gyfnewid Flynnyddol ar Gydraddoldeb (y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol) a Chofleidio Amrywioldeb, Adeiladu Llwybrau i mewn i Brifysgol (NEWI) ym mis Mehefin 2008.
- (viii) Cynhaliwyd rhwydwaith bord-gron o fenywod yn gynnar yn 2008 a threfnir cynnal cyfarfod arall yn ystod y semester sydd i ddod.

Crynodeb: Mae'r gweithgareddau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol yn cynnwys datblygu'r strategaeth ar gyfer un Cynllun Cydraddoldeb, cymryd rhan yng Nghynllun Mentora Menywod yn y Prifysgolion, a chyfarfodydd rhwydweithio.

4. Monitro Rhywedd

- (i) Mae'r ystadegau sylfaenol am gyfansoddiad rhywedd staff a myfyrwyr PA wedi'u coladu ar gyfer yr adroddiad hwn, ynghyd â rhai dangosyddion demograffig.
- (ii) Mae ffynonellau mewnol o wybodaeth ar gyfer adroddiad 2006-07 yn cynnwys y Gwasanaethau Gwybodaeth Rheoli a'r Adran Adnoddau Dynol. Mae'r ffynonellau allanol yn cynnwys Cyfrifiad Cenedlaethol 2001.
- (iii) **Cymaryddion Demograffig:** Mae'r tabl isod yn dangos y boblogaeth fesul Gwlad (Cymru) a Sir (Ceredigion) yn ôl nifer y trigolion sy'n fenywod / gwrywod:

DATA CYFRIFIAD EBRILL 2001 yn ôl Rhywedd	Poblogaeth Awdurdod Unedol Ceredigion	Cyfanswm: Canran yn ôl Rhywedd	Poblogaeth Cymru fel gwlad
Pawb	74941		2903085
Benywod	38395	51.23%	1499303
Gwrywod	36546	48.77%	1403782

- (iv) **Monitro'r Staff:** Mae'r data am staff PA (ers 2005) yn dangos bod rhywedd y gweithlu ym meysydd recriwtio a chyflogi yn dal i fod yn gytbwys:

CYFANSWM Y STAFF: Yn ôl Rhywedd (Benyw / Gwryw)								
<i>Sylwer: Coladwyd y data ym mis Awst 2008</i>								
	Gorff 2005		Hydref 2006		Hydref 2007		Awst 2008	
		%		%		%		%
BENYWOD	913	49.51%	898	50.14%	942	50.03%	1104	49.80%
GWRYWOD	931	50.49%	893	49.86%	941	49.97%	1113	50.20%
CYFANSWM	1844		1791		1883		2217	

- (v) Bellach, caiff data'r broses recriwtio a dewis eu monitro (â llaw). Caiff y wybodaeth a dynnir o system wybodaeth Adnoddau Dynol (sef Cyborg) ar gyfer 2008 ei seilio'n gyfan gwbl ar ddata cyflogres y prif swyddi'n unig ac nid yw'n cynnwys unrhyw swyddi eilaidd i'r staff.

- (vi) Isod, dangosir yr holl raddau ar gyfer staff amser-llawn a rhan-amser (cyfanswm o 2217 o aelodau) yn ôl eu rhywedd ym mis Awst 2008:

Prif Raddfa Gyflog	Benyw		Gwryw		Prif Raddfa Gyflog	Benyw		Gwryw	
	ALI	RhA	ALI	RhA		ALI	RhA	ALI	RhA
Cyfrifiadura Academaidd 1			*		Prif Gogydd CH4			*	
Cyfrifiadura Academaidd 2	*	*	*		Ffitiwr Nwy JIB			*	
Cyfrifiadura Academaidd 3	*		5		Uwch-Blymar JIB			9	
Cyfrifiadura Academaidd 5			*		Trydanwr JIB			7	
Llyfrgell Academaidd 2	*	*	*		Darlithydd A LECA	31	*	36	*
Llyfrgell Academaidd 3	*	*	*		Darlithydd B LECB	41	5	77	9
Llyfrgell Academaidd 5			*		Gweithiwr Llaw 3 gan gynnwys Gwyliau		9		9
Academaidd-Gysylltiedig 1	10	6	13	*	Staff Llaw 1		87	6	43
Academaidd-Gysylltiedig 2	51	16	45	*	Staff Llaw 2	5	18	60	19
Academaidd-Gysylltiedig 3	19	*	25	*	Staff Llaw 3	5	*	*	*
Academaidd-Gysylltiedig 4	*	*	*	*	Staff Llaw 4	*	*	12	*
Academaidd-Gysylltiedig 5	*		7		Isafswm Cyflog 1		*		*
Academaidd-Gysylltiedig 6	*		12		Isafswm Cyflog 2		7		6
Amaethyddol 1			*	*	Staff Eraill	31	113	80	73
Amaethyddol 2			*		Cysylltiedig Eraill 1	9	25	8	8
Amaethyddol 3	*		5		Cysylltiedig Eraill 2	9	14	14	*
Amaethyddol 4			*		Cysylltiedig Eraill 3	*	11	9	
Cogydd CH2			6		Cysylltiedig Eraill 4			*	
Clerigol Un	*		5		Cysylltiedig Eraill 5			*	
Clerigol Dau	10	13	*	*	Athro PROF	7		71	*
Clerigol Tri	60	46	18	9	Ymchwil Un A	16	5	24	7
Clerigol Pedwar	63	37	13	*	Ymchwil Un B	5	*	5	*
Clerigol Pump	29	*	6	*	Ymchwil Dau	*	5	9	*
Clerigol Chwech	11	*			Ymchwil Tri			*	
Gweithredydd Cyfrifiadur 2			*		Uwch-Ddarlithydd	15	*	53	5
Gweithredydd Cyfrifiadur 3	*				Is-Gogydd CH3		*	*	*
Gweithredydd Cyfrifiadur 5	*		*		Technegol A TEA	5	*	6	*
Glenview Gofal Plant	*	19			Technegol B TEB			*	
Gradd A - IGER		7	10		Technegol C TEC	*	*	*	*
Gradd B - IGER	*	6	10		Technegol D TED	10	*	28	*
Gradd C - IGER	21	8	19		Technegol E TEE	5		17	*
Gradd D - IGER	8	*	12		Technegol F TEF	*		8	
Gradd E - IGER	8	*	10		Technegol G TEG	*		*	
Gradd F - IGER	*		12	*	Technegol H TEH			*	
Gradd G - IGER			*		Heb fod ar Radd	*	84	*	61
Cyfanswm						529	575	832	281

CYFANSWM Y BENYWOD	1104	49.80%
CYFANSWM Y GWRYWOD	1113	50.20%
CYFANSWM PAWB	2217	

Sylwer: Rhoddwyd seren i ddynodi ffigurau o dan 5 er mwyn rhwystro adnabod rhai aelodau penodol o'r staff.

- (vii) Mae PA yn cyflogi cydbwysedd o staff gwryw a benyw, h.y. benywod 49.8% a gwrywod 50.2%. Mae'r menywod yn PA yn debycach o weithio'n rhan-amser nag yw'r aelodau gwryw o'r staff, fel y dangosir isod:

Benywod		Gwrywod	
ALI	RhA	ALI	RhA
24%	26%	38%	13%

- (viii) Yn rhai o'r graddau, ceir mwy o aelodau benyw o'r staff nag o aelodau gwrywaidd, e.e. Staff Clerigol. Yn yr uwch-swyddi, fel rhai Academaidd-Gysylltiedig 6, Darlithydd B, Uwch-Ddarlithwyr ac Athrawon, ceir mwy o staff gwryw nag o rai benyw: mae'n hysbys bod hynny'n fater sy'n codi ledled y sector. Efallai y bydd mentrau fel asesu effaith a monitro dilyniant gyrfa'r staff yn helpu i gywiro diffygion o'r fath yn y cydbwysedd rhwng y ddau ryw.
- (ix) **Monitro'r Myfyrwyr:** Dangosir dadansoddiad o'r myfyrwyr ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol. Mae gan PA ychydig yn fwy o fyfyrwagedd nag o fyfyrwyr gwryw.

**Myfyrwyr Israddedig ac Uwchraddedig Cofrestredig
yn ôl eu Rhywedd yn 2006/7**

Rhyw	IR	UR	Eraill	Cyfanswm	% IR/UR
B	3400	1213	2457	7070	52.33
G	3391	811	1235	5437	47.67
	6791	2024	3692	12507	100.00
		8815			

**Myfyrwyr Israddedig ac Uwchraddedig Cofrestredig
yn ôl eu Rhywedd yn 2007/8**

Rhyw	IR	UR	Eraill	Cyfanswm	% IR/UR
B	3338	1155	3112	7605	52.35
G	3363	726	1458	5547	47.65
	6701	1881	4570	13152	100.00
		8582			

Sylwer: Coladwyd y data ym mis Ebrill 2008 a gallai'r categori 'Eraill' hefyd gynnwys staff IR/UR.

- (x) Nid oedd data pellach am y myfyrwyr ar gael, e.e. drwy arolygon, holiaduron ac ati.

Crynodeb: *Mae'r dadansoddiad byr hwn yn dangos bod PA yn dal i recriwtio a chyflogi cydbwysedd o'r ddau ryw. Mae menywod yn PA yn debycach o weithio'n rhan-amser o gymharu â'r staff gwryw, a dynion sydd debycaf o fod yn yr uwch-swyddi. Mae gan PA, o hyd, ychydig yn fwy o fyfyrwyr benyw nag o fyfyrwyr gwryw.*

5. Casgliadau a Blaenoriaethau

- (i) Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Brifysgol wedi diwygio'i hymagwedd at hyrwyddo cydraddoldeb er mwyn sicrhau ei bod hi'n canolbwyntio ar ymgorffori cydraddoldeb ac amrywioldeb ar draws ei swyddogaethau.
- (ii) Yn ei Chynllun Strategol, nod PA yw: (a) cydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol ynghylch cydraddoldeb ac amrywioldeb; (b) dal i ymgorffori cydraddoldeb ac amrywioldeb ym mhob maes yn ei swyddogaethau a'i gweithgareddau a gweithredu mewn ffordd sy'n cynnig cyfle cyfartal i bawb; ac (c) dal i feithrin diwylliant lle caiff myfyrwyr, staff ac ymwelwyr eu trin gyda pharch ac urddas, a hynny mewn amgylchedd lle mae parch i amrywiaeth o gefndiroedd a phrofiadau.

- (iii) Mae PA wrthi'n datblygu un Cynllun Cydraddoldeb 'aml-linyn' ac yn ceisio plethu cydraddoldeb y ddau ryw i lynnau eraill o ran cydraddoldeb. Bydd hynny'n adlewyrchu'n well amryfal hunaniaethau (hil, rhywedd ac ati) staff a myfyrwyr PA. Felly, caiff y Cynllun Cydraddoldeb Rhywedd a'r Cynllun Gweithredu eu huno'n Gynllun a fydd yn cyfuno pob un o'r 6 llinyn, sef rhywedd, hil, anabledd, oedran, crefydd/cred a gogwydd rhywiol.
- (iv) Mae PA yn dal i weithio'n rhagweithiol gyda phartneriaid a sefydliadau allanol i gydweithio a rhannu arferion da o ran materion cydraddoldeb rhywedd.

Y Blaenoriaethau ar gyfer 2008/09

- (v) Bydd PA yn ceisio rhoi sylw i'r blaenoriaethau isod yn ystod blwyddyn academaidd 2008/09:
 - a. Dal i brif-ffrydio cydraddoldeb rhywedd ar draws ei swyddogaethau
 - b. Rhoi sylw i unrhyw dasgau sydd heb eu cyflawni, a thasgau parhaus, yn y Cynllun Gweithredu, h.y.

Blaenoriaethau:

- Eitem 4a Gwella'r Prosesau Cyflogi: bydd PA yn dal i adolygu'r prosesau recriwtio, dewis, datblygu a dyrchafu i ganfod unrhyw ogwydd o ran rhywedd;
- Eitem 5a Rhoi sylw i unrhyw dan-gynrychiolaeth o fenywod neu ddynion mewn meysydd penodol yn y gweithlu (e.e. mewn uwch-swyddi): bydd PA yn dal i adolygu, monitro a datblygu mentrau i gynyddu'r gynrychiolaeth o fenywod a dynion yn y gweithlu;
- Eitem 7a Archwiliad Cyflog Cyfartal: bydd PA yn cynnal Archwiliad Cyflog Cyfartal yn dilyn gweithredu'r Cytundeb Fframwaith yn lleol i sicrhau nad yw'r systemau hynny'n gwahaniaethu ar sail rhywedd. (Sylwer: Cynhaliwyd archwiliad cychwynnol ym mis Ionawr 2006, cyn i'r Cytundeb Fframwaith gael ei gyflwyno);
- Eitem 11a-c Asesu Effaith a Phrif-ffrydio: bydd PA yn dal i weithio i gwblhau'r ymarfer AEC a'r broses adrodd.

Tasgau Parhaus:

- Eitem 8a Hyfforddiant: mae hyfforddiant e-ddysgu gorfodol i'w gyflwyno i ddefnyddwyr e-bost an-weithredol yn dilyn gwerthuso'u hanghenion o ran hyfforddiant/cymorth;
- Eitem 6a Mentrau Teulu-Gyfeillgar a Mentrau Cydbwysedd Bywyd a Gwaith: bydd PA yn dal i ddatblygu polisiau ac arferion i alluogi gweithwyr cyflog i gydbwysu'u gwaith a'u cyfrifoldebau teuluol;
- Eitem 9a-c Monitro: bydd PA yn dal i hwyluso a diweddarau'r mecanweithiau monitro. Bydd hefyd yn dal i geisio dod o hyd i ffynonellau o wybodaeth feintiol ac ansoddol i wella'r gwaith dadansoddi a bwydo hynny i'r prosesau penderfynu.

Ms. Olymbia Petrou
Yr Adran Adnoddau Dynol
Tachwedd 2008
opp@aber.ac.uk